**<u>Y Pwyllgor Busnes BC119-02(Terfynol)</u>**

**COFNODION Y CYFARFOD**

**Dyddiad:** 16 Ebrill 2002
**Amser:** 9 a.m.
**Lleoliad:** Ystafell A3.13

**Yn bresennol:**

John Marek, y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Carwyn Jones, Y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
Jonathan Morgan, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr
Kirsty Williams, Rheolwr Busnes y Democratiaid Rhyddfrydol

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Ymgynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau (eitem 6 ar yr agenda)
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Craig Stephenson, Uned Fusnes y Cynulliad
Alun Jenkins, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (eitem 4 ar yr agenda)
Marc Wyn Jones, Ysgrifenyddiaeth y Siambr / YP y Dirprwy Lywydd

## 1. <u>Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau</u>

1.1 Cafwyd ymddiheuriad gan Marion Stapleton, Uned Fusnes y Cynulliad am ei habsenoldeb. Croesawodd y Dirprwy Lywydd Craig Stephenson a oedd yn dirprwyo ar ei rhan.

1.2 Dywedodd y Dirprwy Lywydd na fyddai'n bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Busnes sydd wedi'i drefnu ar gyfer 30 Ebrill. Cytunodd Kirsty Williams i Gadeirio yn ei absenoldeb yn unol â Rheol Sefydlog 13.4.

## 2. <u>Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol</u>

### (i) BC85-02 (Terfynol) Dydd Mawrth 12 Mawrth 2002

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor yn eu ffurf terfynol. Am nad oedd unrhyw sylwadau byddant yn cael eu cyfieithu'n barod i'w cyhoeddi. **Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

### (ii) BC100-02 (Drafft) Dydd Mawrth 19 Mawrth 2002

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar ffurf drafft. Am nad oedd unrhyw sylwadau byddant yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod nesaf yn eu ffurf terfynol.
**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**3. Materion sy'n Codi (BC100-02 Dydd Mawrth 19 Mawrth 2002)**

**4. Is-ddeddfwriaeth**
**(a) Gorchmynion i'w hystyried**

- Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) (Diwygio) 2002 (BC102-02) *Y Weithdrefn a Argymhellir: Carlam*

- Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) (Diwygio) 2002 (BC103-02) *Y Weithdrefn a Argymhellir: Carlam*

- Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Diwygio) (Cymru) 2002 (BC104-02) *Y Weithdrefn a Argymhellir: Safonol*

- Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2002 (BC105-02) *Y Weithdrefn a Argymhellir: Safonol*

4.1 Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried papurau BC102-02 i BC105-02 a oedd yn rhoi cyngor ar sut i ddelio â'r gorchmynion uchod a chytunodd ar y gweithdrefnau a argymhellwyd.

4.2 Dywedodd y Dirprwy Lywydd y byddai'r Cynulliad cyn hir yn gallu rhoi is-ddeddfwriaeth drafft gerbron y pwyllgorau pwnc perthnasol fel mater o drefn. Dywedodd y byddai angen gweithdrefnau i alluogi'r pwyllgorau i flaenoriaethu deddfwriaeth sydd i'w hystyried. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid trafod y mater hwn yng nghyfarfod nesaf Panel y Cadeiryddion.

**Wedi hynny, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen i'r Gorchmynion uchod fynd gerbron pwyllgor pwnc.**

**(b) Gorchmynion a wnaed o dan y Weithdrefn Weithredol**

BC106-02 i BC107-02

Nododd Aelodau'r Pwyllgor Busnes yr e-byst a anfonwyd gan Ysgrifenyddiaeth y Cabinet yn rhoi gwybod i'r Aelodau ynghylch y bwriad i ddefnyddio'r Weithdrefn Weithredol ar gyfer gwahanol orchmynion.

BC108-02 i BC114-02

4.4 Nododd y Pwyllgor lythrau gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad ynghylch y bwriad i ddefnyddio'r Weithdrefn Weithredol ar gyfer gwahanol orchmynion.

4.5 Dywedodd Jocelyn Davies bod cynnydd sylweddol yn y defnydd o'r Weithdrefn Weithredol, er y rhagwelir y bydd hyn yn lleihau dros amser. Gofynnodd a oedd y Weithdrefn Weithredol yn cael ei defnyddio mewn modd

gwahanol i'r hyn a fwriadwyd. Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad nad oedd penderfyniad wedi cael ei wneud gan y Cabinet i ddefnyddio'r weithdrefn yn amlach. Roedd y Weithdrefn Weithredol yn arfer cael ei defnyddio yn ôl y gofyn, ond roedd yn anochel y byddai achlysuron (e.e. yn ystod toriad) pan fyddai mwy o orchmynion yn cael eu gwneud yn unol â'r weithdrefn. Gofynnodd y Dirprwy Lywydd i David Lambert lunio papur yn nodi'r tueddiadau yn y modd y mae'r Weithdrefn Weithredol yn cael ei defnyddio.

## 5. Cyngor i'r Cynulliad ar weithdrefnau

## 6. Pwyllgorau

BC115-02
6.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar gais y Pwyllgor Diwylliant am gyfarfod ychwanegol.

BC116-02
6.2 Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar gais y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes am gyfarfod ychwanegol.

6.3 Holodd Jocelyn Davies ynghylch dilysrwydd penderfyniad y Cynulliad i ethol, ar 21 Mawrth, Janet Davies i'r Pwyllgor Sefydlog ar Faterion Ewropeaidd ac Allanol yn lle Elin Jones. Dywedodd Marie Knox y byddai'n llunio papur yn egluro'r sefyllfa ac yn ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Busnes.
**Camau i'w cymryd: Marie Knox i baratoi adroddiad.**

## 7. Busnes y Dyfodol

(i) Busnes yr Wythnos Hon

7.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried papur BC117-02 a oedd yn rhoi manylion am fusnes y Cynulliad y cytunwyd arno ar gyfer yr wythnos.

7.2 Dywedodd y Gewinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad y byddai'r cynnig i ddirprwyo swyddogaethau y Ddeddf Digartrefedd, a oedd wedi'i amserlennu ar gyfer y diwrnod hwnnw, yn cael ei ail-amserlennu. Bydd Adroddiad Grant Arbennig ar ffyrdd arloesol o gyflwyno addysg mewn amgylchedd gwledig ac i gynorthwyo awdurdodau lleol i baratoi data nifer disgyblion unigol hefyd yn cael ei ail-asmerlennu. Yn eu lle, bydd y Gweinidog Cyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn gwneud datganiad ar y Cyfarwyddyd ar Ymestyn Categorïau Pobl Ddigartref yr Ystyrir eu bod mewn Angen Blaenoriaethol.

7.3 Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad bod y drafodaeth ar yr argymhellion sy'n deillio o'r Arolygiadau Iechyd Meddwl a'r Cynllun Cofrestru ac Arolygu newydd, sydd i'w chynnal ddydd Iau, yn cael ei gohirio. Yn ei lle bydd tri datganiad. Bydd y Prif Weinidog yn gwneud datganiad ar Fframwaith Adfywio Dwyrain De Cymru. Bydd hefyd yn gwneud datganiad ar y Comisiwn Annibynnol ar Bwerau'r Cynulliad. Bydd Jane Hutt y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud datganiad

ar Drais yn y Cartref.

7.4  Gwnaeth Jonathan Morgan sylw ar nifer y datganiadau sy'n cael eu gwneud mewn Cyfarfod Llawn.  Dywedodd nad oes craffu ar y datganiadau ac nad oedd gwelliannau yn cael eu cynnig iddynt ac felly ni ddylent gymryd lle trafodaeth.  Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad bod modd defnyddio datganiadau i roi gwybod i Aelodau'r Cynulliad am hynt gwahanol faterion.  Cytunodd y Pwyllgor ei fod yn bwysig cadw cydbwysedd rhwng y datganiadau a'r trafodaethau.

<u>(ii) Datganiad Busnes Drafft</u>

7.5  Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad nad oedd unrhyw newidiadau i'r busnes a amlinellir yn y Datganiad Busnes Drafft.

7.6 Nododd y Pwyllgor ddatganiad arfaethedig y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Busnes y Cynulliad am drefniadau busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau sy'n dechrau ddydd Mawrth 16 Ebrill, dydd Mawrth 23 Ebrill a dydd Mawrth 30 Ebrill.

## 8.  <u>Materion a gyfeiriwyd gan y cyfarfod llawn</u>

## 9.  <u>Adolygu Rheolau Sefydlog</u>

9.1  Cyfeiriodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad at gytundeb a wnaed gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod blaenorol i gael gwared ar slot yn y Cyfarfod Llawn i holi Trefnydd y Cynulliad am gyfrifoldebau ar wahân i fusnes y Cynulliad.  Dywedodd i gwestiwn gael ei holi ynghlych a fyddai hyn yn effeithio ar ei rôl fel y Gweinidog dros Hawliau Dynol.  Nodwyd nad yw'r mater hwn wedi'i ddatrys eto.
**Camau i'w cymryd:  Yr Ysgrifenyddiaeth**

## <u>10. Dyfarniadau'r Llywydd</u>

## <u>11. Unrhyw fater arall</u>

11.1  Dywedodd y Dirprwy Lywydd bod ymweliad y Frenhines â Bangor ddydd Mawrth 11 Mehefin ar yr un diwrnod â'r Cyfarfod Llawn.  Dywedodd i'r Arglwydd Siamberlen wahodd Aelodau i fynd i wasanaeth Eglwys ym Mangor. Bydd y Frenhines yn ymweld ag Adeilad y Cynulliad ddydd Iau, 13 Mehefin. Dywedodd Jocelyn Davies fod y Trefnydd blaenorol wedi ysgrifennu ati i roi gwybod iddi y byddai'r Cyfarfod Llawn yn cael ei symud i'r dydd Mercher. Gofynnodd i'r Rheolwyr Busnes drafod y mater gyda'u pleidiau ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf fel bod modd i'r Pwyllgor benderfynu ar drefniadau Cyfarfodydd Llawn yr wythnos honno.
**Camau i'w cymryd:  Rheolwyr Busnes i adrodd yn ôl.**

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**